CANLLAWIAU DYLUNIO: TOEAU

LLECHI NATURIOL **E2**

Llechi yw'r gorchudd traddodiadol ar gyfer toeau adeiladau yn y Parc. I gadw eu cymeriad traddodiadol, dylid defnyddio llechi naturiol ar adeiladau hen a newydd fel ei gilydd. Eithriadau fyddai siediau amaethyddol neu ddiwydiannol llydan oherwydd ongl tô isel

LLIW TO HANESYDDOL



MAINT Y LLECHEN - dylai gyd-fynd â maint yr adeilad. Mae llechi 500 x 250mm (20" x 10") yn rhy fawr i fythynnod bychain

ONGL Y TO - oni bai fod cyfiawnhad gweledol, dylid dylunio toeau rhwng 30° - 40°
Gydag onglau is, gellir gwneud i'r to ddal dŵr trwy gynyddu maint a "lap" a maint y lechen

TRWCH Y LLECHEN - mae ymyl waelod arw ar lechi yn rhoi ansawdd i wyneb y to. Mae llechi tenau yn edrych yn rhy artiffisial pryd mae llechi trwchus yn rhoi mwy o gymeriad. Dylid defnyddio'r rhain mewn ardaloedd gwledig

ATGYWEIRIADAU -



Ceisiwch gadw unrhyw batrwm



Mae'n rhaid cadw 'lap' sy'n graddol fynd yn llai fel ag y mae



Mae angen "turio" llechi 'peg' gyda morter blew/calch ar yr ochr fewnol

CYNHYRCHIAD - Yn hanesyddol roedd yna nifer o chwareli bychan ond erbyn heddiw dim ond dwy ardal lechi sy'n cynhyrchu llechi:-

- PENRHYN ger Bangor, a ▲ BLAENAU FFESTINIOG
  LLIW TO - Dyma'r ffactor bwysicaf gyda dewis llechi to a dylai unrhyw do newydd gyd-fynd â lliw y rhan fwyaf o doeau yn y cyffiniau
- GLAS (Penrhyn) - nid yw ar gael mwyach. Byddem yn argymell ail-ddefnyddio hen rai i drwsio toeau, os ydynt yn lân. Defnyddiwch lechi llwydlas i ail-doi oni bai mai piws yw'r lliw yn lleol
- PIWS (Penrhyn) - nid yw ar gael mwyach. Defnyddiwch hen rai i drwsio toeau, os ydynt yn lân. Ceisiwch ail-doi gyda llechi "grug" lle mae rhai piws yn gyffredin. Fel arall, newidiwch i rai llwydlas.
- GRUG (Penrhyn) llechi glas gydag ymyl goch yw'r rhain
- ▲ LLWYDLAS (Blaenau Ffestiniog) - dewis addas yn lle llechi glas Penrhyn

LLECHI O DRAMOR - dim ond drwy ddefnyddio llechi o'r mathau lleol uchod y gellir sicrhau parhad cymeriad presennol y toeau traddodiadol.

"llechen a hanner" wedi'u defnyddio ar hyd ymyl neu yn erbyn bytment



Dylai LLECHI NEWYDD ar do presennol fod yn union yr un fath â'r gweddill.

TOEAU TAI RHES - dylai ail-doi ddilyn llinelliad llechi ar doeau gerllaw

TRINIAETH BITWMEN - ni ddylid defnyddio llechi wedi eu trin wedyn

Gellir ystyried DULLIAU GLUD sy'n cuddio'r "ffitio" fel ateb dros dro



10/2000